**EDC-08-00 (P7)**

**Papur er gwybodaeth**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad: 12 Ebrill 2000**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

**Teitl: Gwariant Cyfalaf Awdurdod Datblygu Cymru**

**Cefndir**

Yng nghyfarfod 15 Mawrth, tra'n ystyried eitem 4 ar Drosglwyddiadau Cyllideb, cododd aelodau'r Pwyllgor gyfres o gwestiynau yn ymwneud â sefyllfa cyllideb Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'r papur hwn yn darparu'r wybodaeth a geisiwyd ar ffurf brîff cwestiwn ac ateb.

**Cyd-destun**

Ym mhapur EDC-5-00 (P.2) ar Drosglwyddiadau Cyllideb ar gyfer 1999-2000, hysbyswyd y Pwyllgor Datblygu Ewropeaidd fod disgwyl i all-dro Awdurdod Datblygu Cymru fod yn £115.103 o'i gymharu â chyllideb o £138.032 miliwn. Roedd y gwahaniaeth o £22,929 miliwn o ganlyniad i danwariant cyfalaf o £23.530 miliwn, lleihad o £149,000 mewn cymryd benthyciadau o'r Gronfa Fenthyca Genedlaethol a throsglwyddo i'r Cyfalaf Difidend Cyhoeddus o +£749,000. Roedd y tanwariant cyfalaf o ganlyniad i oedi ar dri phrif brosiect ble y rhoddwyd corlan o amgylch yr arian.

**Cwestiwn 1**

***Ar ba dri phrosiect y bu oedi gan achosi'r tanwariant hwn?***

Y tri phrosiect oedd LG Semicon (ble y rhoddwyd corlan o amgylch cymorth grantiau gwerth £21.5 miliwn yn 1999-2000), Bank One (ble y clustnodwyd £840,000 yn 1999-2000) a'r Orsaf Derfynol i Nwyddau Rheilffyrdd ble y dechreuodd y gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn na'r disgwyl (a bydd angen symud £490,000 o 1999-2000 i 2000-2001).

**Cwestiwn 2**

***A ychwanegir yr arian yma at gyllideb Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2000-2001?***

Nid yw hyn yn digwydd yn awtomatig oherwydd bod yn rhaid i'r Cynulliad ddilyn y trefniadau ar gyfer hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn a esboniwyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ym mhapur EDC-05-00 (P.8). Mater yw hyn i'r Ysgrifennydd Cyllid a chyflwynir cyngor pellach yn fuan.

**Cwestiwn 3**

***Onid ydy'r Cynulliad eisoes wedi lleihau llinell sylfaenol Awdurdod Datblygu Cymru i gymryd ymrwymiadau prosiect LG I ystyriaeth?***

Mae'r Cynulliad wedi gosod llinell sylfaenol yr Awdurdod ar gyfer 2000-2001 ar lefel sydd £11.5 miliwn yn is na llinell sylfaenol y llynedd, (£162.952 miliwn yn 2000-2001 o'i gymharu â £174,452 miliwn yn 1999-2000). Mae'r £11.5 miliwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dyraniad gwreiddiol i LGS yn 1999-2000 (£36.5 miliwn) a'r dyraniad i LGE yn 2000-2001 (£25 miliwn)